

Prosiect Uchelgais Diwylliannol - Proffil Hyfforddai

Safle	Hyfforddai Uchelgais Diwylliannol
Hyd yr Hyfforddiant	Cyfnod penodol 28 Mehefin 2021 - 24 Ebrill 2022
Oriau	30 awr yr wythnos (yn cynnwys oriau a dreuliwyd ar leoliad rhithiol ac oriau a dreuliwyd ar gymhwyster)
Taliadau Bwrsariaeth	£800 y mis
Rhanbarth	Abertawe Caerdydd Casnewydd & Torfaen Ceredigion (siaradwr Cymraeg yn hanfodol) Conwy Gwynedd (siaradwr Cymraeg yn hanfodol)
Dyddiad	Mai 2021

Trosolwg Prosiect

Mae'r rhaglen hyfforddi hon yn gyfle cyffrous i unigolyn ifanc sy'n dymuno dysgu am weithio mewn amgueddfeydd, cestyll, archifau a lleoliadau treftadaeth ddiwylliannol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae safleoedd treftadaeth ddiwylliannol wedi symud y rhan helaeth o'u gwaith ar-lein, gyda staff yn gweithio gartref yn darparu cynnwys rhithiol i ymgysylltu â'u cwsmeriaid tra bod y safle yn parhau ar gau. Bydd hyfforddeion yn ennill mewnwelediad unigryw i'r hyn y mae'n ei olygu i weithio yn y sector treftadaeth ddiwylliannol yn ystod y cyfnod hwn, drwy ymgymryd â lleoliadau rhithiol gyda dau safle treftadaeth ddiwylliannol wahanol. Bydd hyfforddeion yn cael eu mentora gan aelodau staff ar y safleoedd hynny ac yn cael eu cynnwys mewn unrhyw waith mae'r sefydliadau'n eu darparu yn ystod y cyfnod hwn. Ar ôl i'r safleoedd ddechrau ail-agor, a phan ei fod yn ddiogel gwneud hynny, bydd hyfforddeion yn cael y cyfle i gwblhau agweddau o'u lleoliad ar y safle. Bydd yr hyfforddeion yn derbyn bwrsariaeth o £800 y mis am bob mis o'r hyfforddiant.

Yn ogystal â'r lleoliadau rhithiol, bydd y prosiect yn cynnwys dosbarthiadau meistr wedi'u darparu gan rai o'r mentoriaid safle a hyfforddiant cyflogadwyedd i helpu gyda'r cam nesaf ar ôl i hyfforddeion gwblhau'r rhaglen.

Cymhwyster

Ynghyd â'r lleoliadau rhithiol, bydd yr hyfforddeion yn gweithio tuag at gymhwyster NVQ Lefel 2 mewn Treftadaeth Ddiwylliannol. Bydd hyfforddeion yn cael eu cofrestru fel myfyrwyr gyda Choleg Caerdydd a'r Fro a bydd angen iddynt gwblhau e-bortffolio OneFile. Bydd gan hyfforddeion sesiynau Teams wythnosol gydag asesydd y coleg, yn ogystal â mynediad at gymorth un i un. Mae teitlau'r unedau sydd wedi'u cynnwys yn y cymhwyster yn cynnwys:

- Cynorthwyo gyda gweithdrefnau digwyddiadau ac argyfyngau
- Gweithio gyda chydweithwyr
- Cyfrannu at ofalu am safle lleoliad diwylliannol
- Cynorthwyo cwsmeriaid, ymwelwyr neu gynulleidfaoedd i fanteisio'n llawn ar eu profiad o sefydliad creadigol neu ddiwylliannol
- Cefnogi gweithgareddau dysg mewn cyd-destun creadigol a diwylliannol
- Cefnogi gweithgareddau marchnata mewn cyd-destun creadigol a diwylliannol
- Hunaniaeth ac Amrywiaeth Diwylliannol
- Darparu gwasanaeth cwsmer dibynadwy
- Rhoi argraff gadarnhaol ohonoch chi eich hun i gwsmeriaid

Sut i wneud cais:

Rydym yn chwilio am rywun sydd ag angerdd a diddordeb go iawn ar gyfer dysgu o fewn y sector treftadaeth ddiwylliannol.

Dylai hyfforddeion:

- 18-24 oed
- Beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wrth ymwneud â'r hyfforddiant hwn
- Peidio â meddu ar radd

I wneud cais, cwblhewch y ffurflen gais a monitro, gan gynnwys datganiad personol byr ynghylch pam eich bod â diddordeb yn yr hyfforddiant hwn. Gall eich datganiad personol fod ar sail fideo neu'n ysgrifenedig. E-bostiwch jo.esposti@ccskills.org.uk neu bostiwch i:

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
PO Box 252
Aberystwyth SY23 9FN

Bydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal yn rhithiol, drwy lwyfan galwad fideo ar-lein fel Skype, Zoom neu Teams. Os oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch cael mynediad at gyfrifiadur, neu os nad oes gennych fynediad dibynadwy at y we, rhowch wybod i ni a gallwn wneud trefniadau i ddarparu ar gyfer hyn.

[Dadlwythwch Becyn Gwybodaeth Recriwtio dan Hyfforddiant](#)
[Lawrlwythwch y Ffurflen Gais](#)
[Lawrlwythwch y Ffurflen Monitro Data](#)

Noder mai nifer cyfyngedig o leoliadau hyfforddiant sydd ar gael. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5pm ar ddydd Gwener 4 Mehefin 2021.